**Beirniadaeth Cystadleuaeth 349 – Barddoniaeth dan 25 oed: Englyn**

**Beirniad: Tudur Dylan Jones**

**Canlyniad:**

**1. Grug**

**2. Huw**

**Barddoniaeth dan 25 oed: Englyn Cyfarchiad ar achlysur arbennig**

Dau englyn a dderbyniwyd ar gyfer y gystadleuaeth hon eleni. Mae'r ddau wedi mynd i gyfeiriadau gwahanol iawn i'w gilydd, ac er bod englyn HUW yn dechrau'n addawol iawn gyda chynganeddu graenus, yn anffodus mae angen edrych eto ar y gynghanedd yn llinellau 3 a 4. Nid wyf chwaith yn siŵr o ystyr yr ymadrodd 'sïon rheswm' yn y cyd-destun hwn. Mae yn sicr yma fardd addawol, a hoffwn argymell i HUW ddal ati i feistroli'r hen grefft oherwydd mae ganddo gyfoeth o syniadau i'w hadrodd.

Mae englyn GRUG yn codi i dir uchel, gydag anwyldeb ac agosatrwydd yn pefrio ynddo. Englyn i fam ar ei phenblwydd sydd yma, a pha riant na fyddai wrth eu boddau'n cael englyn o'r math hwn. Mae'n symud yn grefftus o'r 'wên' a'r 'gwaed' diriaethol yn y paladr i'r 'gred' a'r 'awen' haniaethol yn yr esgyll. Mae'n englyn wedi'i saernïo'n grefftus, ac yn ymddangosiadol ddiymdrech. Mae'r groes o gyswllt yn y llinell olaf yn glo trawiadol i englyn campus.